## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Cerddoriaeth UG Lefel 3



**Yn gryno**

Bydd y cwrs hwn yn eich caniatáu chi i astudio, perfformio, cyfansoddi a datblygu'ch sgiliau cerddoriaeth.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych am gyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

... Ydych yn frwdfrydig ac yn gallu cymell eich hun

... Yw cerddoriaeth a/neu'r theatr yn agos at eich calon

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Cynigiwn hyfforddiant o fath conservatoire o safon uchel. Ar lefel UG, byddwch yn astudio perfformiadau unigol ac ensemble, cyfansoddi a thechnegau cyfansoddi. Yn ogystal, byddwch yn datblygu sgiliau clywedol, a dadansoddiad cerddorol trwy astudio cyfuniad o weithiau yn

mynd i'r afael â dau faes astudio (symffoni 1760-1830 a naill ai theatr gerdd, neu roc a phop, neu jas). Mae'r fanyleb gerddoriaeth UG yn cynnwys tair uned astudio:

Perfformio (30% o UG)
Cyfansoddi (30% o UG)
Gwerthuso (40% o UG)

Yn A2 byddwch yn astudio tair uned bellach. Mae perfformio a chyfansoddi yn cael eu hastudio'n ddyfnach ac mae dealltwriaeth gerddorol yn cael ei datblygu drwy weithiau gosod newydd wedi eu seilio ar dri maes testun (Y Symffoni 1830 i 1910, Argraffiadaeth a Theatr Gerdd Americanaidd). Mae'r fanyleb gerddoriaeth A2 yn cynnwys tair uned sy'n adlewyrchu'r rheiny ar lefel UG ond sy'n rhoi hyblygrwydd pellach o ran dyfnder yr astudio mewn Perfformio a Chyfansoddi.

Bydd unedau yn cael eu hasesu naill ai drwy waith cwrs neu drwy arholiad. Mae staff offerynnol a lleisiol gwadd hefyd yn cynorthwyo i baratoi am arholiadau gradd ym mherfformiad. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn ennill:

Cerddoriaeth Lefel UG
Cerddoriaeth Lefel U
Gweithgareddau sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg a Mathemateg/Rhifedd Mathemateg ac mae angen TGAU Gradd B mewn Cerddoriaeth neu Radd 5 mewn Theori Cerddoriaeth, yn ogystal â'r gallu i ddarllen nodiant cerddoriaeth. Yn ogystal, mae angen perfformiad i safon Gradd 5 (ASRSM, Trinity, Rockschool, etc).

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gallwch fynd ymlaen i'r brifysgol, conservatoires neu golegau arbenigol y celfyddydau perfformio.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Lle bynnag sy'n bosibl, gwneir trefniadau i weld perfformiadau sy'n addysgol a phleserus, a fydd yn costio.  Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi fynychu.

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i gynnig cwricwlwm amrywiol a chyfoethog i'w ddysgwyr Lefel A ac UG ac mae'n awyddus i sicrhau bod dysgwyr ar draws Gwent yn gallu cyrchu pynciau sy'n hanesyddol yn recriwtio niferoedd bach. Er mwyn sicrhau lle, mae Sbaeneg a Ffrangeg yn cale e cynig ar ein Campws Crosskeys a chynigir Cymraeg ar ein campysau Crosskeys a Parth Dysgu Blaenau Gwent. Bydd Cerddoriaeth a Mathemateg Bellach yn cael eu cynnig ar bob un o'n campysau. Os yw eich dewis o bynciau yn golygu bod angen teithio rhwng campysau, cysylltwch â'n hadran dderbyn i gael mwy o wybodaeth.